Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Y Cwmpawd Gilfach

William Street
Gilfach
CF81 8ND

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Y Cwmpawd Gilfach

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Y Cwmpawd Gilfach |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Darpariaeth aml-safle? | Ydy |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 96 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 96 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/06/2025 |

Rhagor o wybodaeth

Mae awdurdod lleol Caerffili wedi ad-drefnu rheolaeth darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) yn ddiweddar. Mae Y Cwmpawd Gilfach yn uned cyfeirio disgyblion (UCD) portffolio, sydd wedi symud o wasanaethau cynhwysiant ac mae bellach yn rhan o'r gwasanaeth gwella ysgolion. Mae hyn yn dechrau cryfhau atebolrwydd a chydweithio.

Ers ei chofrestru yn 2023, mae'r UCD wedi cael ei hailstrwythuro'n sylweddol. Mae hyn wedi creu ansefydlogrwydd mewn arweinyddiaeth, yn fwyaf nodedig ar safle Tŷ Gilfach, sydd wedi cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion, a'u deilliannau. Ym mis Ebrill 2025, penododd yr awdurdod lleol arweinydd AHY sydd â goruchwyliaeth ar draws yr holl ddarpariaethau yn y portffolio. Yn sgil cyfnod cynlluniedig o absenoldeb gan yr arweinydd AHY, mae'r awdurdod lleol wedi secondio'r athro sydd â gofal am UCD Glanynant i weithio fel pennaeth dros dro AHY am weddill tymor yr haf. Mae'r rôl hon wedi'i lleoli ar safle Tŷ Gilfach. Mae gan bob un o'r darpariaethau ar draws yr UCD portffolio ei harweinydd ei hun, sydd â chyfrifoldeb am y ddarpariaeth honno, sy'n aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth ehangach.

Mae Y Cwmpawd Gilfach yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 7 ac 16 oed. Mae gan yr UCD portffolio gyfrifoldebau dirprwyedig i drefnu a goruchwylio'r holl ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) ar gyfer yr awdurdod lleol. Mae gan lawer o ddisgyblion anghenion cymdeithasol, emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl. Mae

llawer o ddisgyblion wedi colli cryn dipyn o amser allan o addysg ac mae ganddynt fylchau sylweddol yn eu dysgu.

Mae tair darpariaeth dros bedwar safle. Mae Tŷ Gilfach yn UCD ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 16 oed. Mae Innovate yn Wasanaeth Ieuenctid a darpariaeth addysg ar y cyd ar gyfer disgyblion rhwng 13 ac 16 oed. Mae The Hive yn darparu tiwtora yn y gymuned ar gyfer disgyblion sy’n osgoi’r ysgol ar sail emosiwn (EBSA) a’r rhai sydd angen tiwtora unigol.

Mae 96 o ddisgyblion ar y gofrestr ar draws pob un o’r darpariaethau. Mae gan bron bob un o’r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt gynllun datblygu unigol (CDU) awdurdod lleol.

Mae ychydig llai na 40% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Ychydig iawn o ddisgyblion sy’n siarad Saesneg fel ail iaith neu’n dod o gefndir ethnig lleiafrifol. Ychydig iawn o ddisgyblion sy’n siarad Cymraeg. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ar hyn o bryd, er bod gan lawer ohonynt brofiad o fyw mewn gofal.

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai’r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i’r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy’r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae arweinwyr yn Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) portffolio Y Cwmpawd Gilfach yn cydweithio i ddatblygu gweledigaeth glir, sy'n sail i waith yr UCD. Maent yn dechrau sefydlu gweledigaeth ar y cyd ar sail gwerthoedd cynhwysol i, 'berthyn, dyheu, cyflawni'. Mae arweinwyr yn datblygu diwylliant o ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl. Mae gan arweinwyr synnwyr brwd o waith tîm, ac mae cydweithio ar draws y darpariaethau yn datblygu'n dda. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at gysondeb gwell mewn ychydig o feysydd, fel ymddygiad a lles. Mae arweinwyr wedi cyflwyno strwythurau atebolrwydd cliriach a chynnig dysgu proffesiynol buddiol. Fodd bynnag, nid yw prosesau cynllunio strategol a hunanwerthuso yn ddigon cadarn i yrru gwelliant.

Ar draws tair darpariaeth Y Cwmpawd Gilfach, mae staff yn sefydlu amgylcheddau dysgu tawel a phwrpasol, y mae perthnasoedd parchus rhwng staff a disgyblion yn sail iddynt. Mae'r rhan fwyaf o staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda ac yn creu amgylcheddau cynhwysol a chefnogol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymddygiad yn sefydlog ar draws yr UCD, ac mae staff yn rheoli anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn effeithiol. Mae dysgu proffesiynol targedig a chyflwyno'r polisi 'Barod i Ddysgu' yn ddiweddar yn hyrwyddo ymagwedd gyson at ymddygiad ar draws y darpariaethau.

Mae gweithio mewn partneriaeth ag ystod fuddiol o bartneriaid allweddol yn gryfder nodedig. Mae hyn yn gwneud cyfraniad pwysig at wella lles disgyblion ac yn eu cynorthwyo'n llwyddiannus i ymgysylltu â dysgu.

Mae ansawdd a chydlyniant y cwricwlwm yn amrywio'n sylweddol ar draws y darpariaethau. Mae Innovate a The Hive yn cynnig cwricwla effeithiol, strwythuredig sy'n diwallu anghenion unigol disgyblion ac yn cefnogi deilliannau cadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw'r cwricwlwm yn Nhŷ Gilfach wedi'i ddatblygu'n ddigonol, sy'n rhwystro cynnydd disgyblion.

Mae disgyblion yn elwa ar brofiadau dysgu difyr, ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol mewn llafaredd ac ysgrifennu, ac yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn addas mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Nid yw medrau digidol a medrau Cymraeg disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol. At ei gilydd, mae'r diffyg prosesau asesu a'r drefn gyfyngedig o ran olrhain cynnydd disgyblion yn rhwystro gallu staff i gynllunio profiadau dysgu sy'n datblygu medrau disgyblion yn raddol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol yn Innovate a The Hive, lle mae cymorth wedi'i deilwra ac yn cael ei olrhain yn dda. Yn Nhŷ

Gilfach, fodd bynnag, mae systemau i nodi a chefnogi ADY yn llai datblygedig, ac ni chaiff anghenion disgyblion eu diwallu bob amser.

Mae presenoldeb yn faes allweddol i'w wella. Er bod presenoldeb yn addas yn Innovate a The Hive, mae'n parhau i fod yn rhy isel yn Nhŷ Gilfach, lle mae disgyblion yn manteisio ar leoliadau rhan-amser. Nid yw prosesau i fonitro ac adolygu trefniadau presenoldeb wedi'u datblygu'n ddigonol, sy'n effeithio ar degwch y cynnig cwricwlwm.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cynnig goruchwyliaeth strategol gynyddol ac yn cyfrannu'n effeithiol at feysydd fel recriwtio a diogelu. Maent yn adnabod yr UCD yn dda, gan nodi'n gywir ei chryfderau a'i meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid yw wedi sicrhau bod arweinwyr wedi mynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol yn ddigon cyflym.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar o argymhellion i helpu'r UCD i barhau i wella, sef:

A1 Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel i wella trylwyredd ac effeithiolrwydd hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, gyda ffocws clir ar wella'r deilliannau ar gyfer pob un o'r disgyblion

A2 Gwella presenoldeb, yn cynnwys mynediad at addysg amser llawn ar gyfer pob un o'r disgyblion

A3 Datblygu arweinyddiaeth strategol y cwricwlwm i sicrhau cynllunio cydlynus, dilyniant a darpariaeth deg, yn enwedig yn Nhŷ Gilfach

A4 Sefydlu systemau cadarn ar gyfer olrhain asesu a dilyniant yn Nhŷ Gilfach i fonitro deilliannau disgyblion a llywio cynllunio

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr UCD hon. Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr UCD tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

# Prif ganfyddiadau

## Arweinyddiaeth

Mae uwch arweinwyr yn cydweithio i ddatblygu gweledigaeth glir, sy'n sail i waith yr UCD, sydd wedi'i seilio ar 'berthyn, dyheu, cyflawni'. Mae arweinwyr yn dechrau sefydlu diwylliant o ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob un o'r disgyblion wrth iddynt ymuno â'r UCD. O ganlyniad, mae'r disgyblion hynny sy'n mynychu'n rheolaidd yn gwneud cynnydd yn rheoli eu hymddygiad ac yn ymgysylltu'n llwyddiannus â'u dysgu. Fodd bynnag, nid oes digon o ddisgyblion yn cael cyfle i fynychu'n rheolaidd. Mae hyn yn effeithio'n sylweddol ar y cynnydd y gallant ei wneud mewn meysydd pwysig o'u dysgu.

Ers yr ailstrwythuro, mae cyfleoedd cynyddol i uwch arweinwyr ar draws y ddarpariaeth weithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd. O ganlyniad, mae ganddynt synnwyr brwd o waith tîm, ac mae cydweithio ar draws y darpariaethau yn datblygu'n dda. Mae arweinwyr wedi sefydlu strwythurau atebolrwydd clir, gan gynnwys cyfarfodydd tîm wythnosol yr uwch dîm rheoli a chyfarfodydd rheolaidd rheolwyr llinell, er enghraifft. Mae hyn yn dechrau cryfhau ansawdd y cyfeiriad strategol yn Y Cwmpawd Gilfach ac yn arwain at welliannau mewn ychydig o feysydd, er enghraifft yn yr ymagweddau cyson at gefnogi lles ac ymddygiad disgyblion. Fodd bynnag, mae cyfleoedd ar gyfer cydweithio rhwng y tîm staff ehangach yn gyfyngedig.

Mae arweinwyr yn dechrau cofnodi ystod addas o wybodaeth i'w helpu i werthuso ansawdd y ddarpariaeth a llywio cynllunio strategol. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau gwella yn nodi'n glir ddeilliannau camau gweithredu neu raddfeydd amser cytûn yn ddigon da. Er bod arweinwyr yn gwerthuso'r cynnydd y maent yn ei wneud, mae diffyg ffocws ar effaith y camau a gymerwyd. At ei gilydd, nid yw hunanwerthuso a chynllunio strategol wedi'u datblygu'n ddigonol o hyd. Mae hyn yn golygu, dros gyfnod, nad aethpwyd i'r afael â gwelliannau mewn meysydd pwysig fel amrywioldeb y cwricwlwm, asesu a phresenoldeb ar draws y darpariaethau, ac maent yn parhau i fod yn flaenoriaethau cyfredol pwysig.

Mae staff yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol. Mae systemau addas i staff fynegi diddordeb mewn datblygiad proffesiynol pellach. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r cynllunio strategol ar gyfer dysgu proffesiynol, a'i werthuso, ar gyfer addysgu, a'i effaith ar gynnydd disgyblion.

Mae aelodau o'r pwyllgor rheoli yn cynnig ystod eang o arbenigedd ac yn cyfrannu'n ystyrlon at feysydd allweddol fel recriwtio, adnoddau dynol a chynllunio strategol. Maent yn darparu lefel ddatblygol o oruchwyliaeth strategol ar draws y darpariaethau, gydag ymwybyddiaeth gynyddol o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn yr UCD. Er enghraifft, maent yn nodi'r gwelliant yn ymgysylltiad ac ymddygiad disgyblion yn gywir, ond hefyd yr

amrywioldeb yn y cynnig cwricwlwm a’r cynnydd a wna’r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw’r pwyllgor rheoli wedi sicrhau bod arweinwyr wedi rhoi camau ar waith i fynd i’r afael â’r meysydd hyn i’w gwella yn ddigon cyflym.

Mae’r pwyllgor rheoli’n derbyn gwybodaeth amserol a manwl gan arweinwyr yn yr UCD, sy’n galluogi iddo ddarparu mwy o her a chymorth effeithiol. Mae ychydig o aelodau wedi cymryd rhan mewn teithiau dysgu a gweithgareddau llais y disgybl. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae eu rôl mewn hunanwerthuso.

Mae adroddiadau diwedd blwyddyn yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr ar gyfer disgyblion yn narpariaethau Innovate a The Hive. Fodd bynnag, adeg yr arolygiad, nid yw’r adroddiadau hyn ar waith eto yn narpariaeth Tŷ Gilfach.

Defnyddir cyllid grant yn briodol i wella ystod y cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Ar hyn o bryd, nid oes proses drylwyr ar waith i nodi effaith y cyllid ar ddeilliannau disgyblion yn effeithiol.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn gryfder nodedig, ac mae cysylltiadau helaeth ar draws addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cefnogi anghenion cyfannol disgyblion yn dda.

## Lles, diogelu a phresenoldeb

Ar draws yr UCD, mae staff yn datblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol ac ymddiriedus â disgyblion sy’n mynychu’r darpariaethau yn rheolaidd. Mae bron pob un o’r staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn rheoli eu hanghenion emosiynol yn effeithiol. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel a’u bod yn cael cymorth da, ar y cyfan.

Ceir diwylliant diogelu sydd wedi’i ymgorffori’n dda ar draws yr UCD. Mae’r trefniadau safle diogel yn cyfrannu’n effeithiol at yr amgylchedd diogel hwn. Mae staff yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o’u rolau a’u cyfrifoldebau. Yn yr un modd, mae’r pwyllgor rheoli wedi datblygu dealltwriaeth effeithiol o’u rôl ac yn sicrhau bod blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i ddiogelu. Mae cyflwyno platfform digidol ar draws yr holl ddarpariaethau yn ddiweddar iawn yn dechrau darparu dull cyson ar gyfer adrodd am bryderon ynghylch diogelu.

Yn rhan o’r strwythur staffio, mae’r arweinyddiaeth strategol o ran presenoldeb yn yr UCD yn faes blaenoriaethol i’w wella. Mae prosesau presenoldeb ar draws darpariaethau Innovate a The Hive wedi hen ennill eu plwyf. Yn Nhŷ Gilfach, mae prosesau’n dechrau cael eu gweithredu’n fwy cyson.

At ei gilydd, mae presenoldeb ar draws pob darpariaeth yn rhy amrywiol. Mae presenoldeb disgyblion yn Nhŷ Gilfach yn rhy isel. Yn ychwanegol, yn Nhŷ Gilfach, mae’r rhan fwyaf o

ddisgyblion yn cael addysg naill ai yn sesiynau'r bore neu'r prynhawn yn ystod yr wythnos, ac nid ydynt yn elwa ar addysg amser llawn. O ganlyniad, caiff hyn effaith sylweddol ar y cynnydd a wna'r disgyblion hyn yn ystod eu cyfnod yn yr UCD.

Mae prosesau olrhain a monitro ar gyfer presenoldeb disgyblion yn anghyson. Ar gyfer y disgyblion hynny sy'n cael addysg ran-amser, nid yw prosesau i adolygu'r trefniadau hyn wedi'u datblygu'n ddigonol. O ganlyniad, caiff hyn effaith sylweddol ar degwch y cynnig cwricwlwm. At ei gilydd, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwella'u presenoldeb o'u mannau cychwyn cychwynnol yn ystod eu cyfnod yn yr UCD.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi cyflwyno newid mewn rheoli ymddygiad disgyblion i ddarparu dull cyson ar draws pob un o'r darpariaethau. Trwy'r polisi 'Barod i Ddysgu', mae angen cydnabyddedig i fynd i'r afael â'r diffyg ymgysylltiad a phresenoldeb gan grwpiau o ddisgyblion. Mae dulliau i sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn saff, ac yn barod i ddysgu, yn sail i hyn.

At ei gilydd, ar draws y darpariaethau, mae ymddygiad disgyblion yn sefydlog. Pan mae darpariaethau'n fwy sefydledig, mae staff wedi datblygu strategaethau hynod effeithiol i ymgysylltu a rheoli anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol eu disgyblion yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn cael cymorth effeithiol, yn enwedig yn narpariaethau The Hive ac Innovate. Mae cymorth wedi'i deilwra'n ofalus i ddiwallu anghenion unigol trwy gynllunio gwybodus ac ymyriadau targedig.

Mae darpariaethau Innovate a The Hive yn dangos systemau wedi'u hymgorffori'n dda ar gyfer defnyddio cynlluniau datblygu unigol (CDUau) ac olrhain cynnydd. Mae'r cymorth personoledig hwn yn arwain at ymgysylltiad cryf a deilliannau ôl-16 cadarnhaol. Fodd bynnag, yn Nhŷ Gilfach, mae cyfle i fanteisio ar ymyriadau yn gyfyngedig. Mae'r diffyg prosesau i nodi anghenion academaidd disgyblion yn effeithio ar allu staff i dargedu ymyriadau yn briodol. O ganlyniad, caiff ymyriadau eu cynllunio'n anghyson ac nid ydynt yn cael eu gwerthuso'n drylwyr am eu heffaith.

At ei gilydd, er bod ymrwymiad cryf i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY, mae'r amrywioldeb mewn cynllunio, arfer a gwerthuso effaith ar draws y darpariaethau yn cyfyngu ar gysondeb profiadau disgyblion. Mae arweinwyr yn ymwybodol o'r diffygion hyn ac yn dechrau cymryd camau i feithrin capasiti staff a datblygu ymagwedd fwy strategol at ddiwallu anghenion disgyblion.

Ar draws darpariaethau, mae amrywioldeb mewn cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llais y disgybl ac arweinyddiaeth. Yn yr arfer fwyaf effeithiol, caiff disgyblion gyfleoedd i gynllunio system ymddygiad a gwobrau, sy'n cynorthwyo disgyblion i

berchnogi eu hymddygiadau. Ar hyn o bryd, nid oes cyngor ysgol ar draws y darpariaethau, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd yr UCD.

Mae'r cymorth ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 11 sydd mewn perygl o beidio ag ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NACH) yn hynod gryf yn Innovate a The Hive lle mae niferoedd wedi bod yn gyson isel dros gyfnod. Mae'r tîm Ysbrydoli yn darparu arweiniad a threfniadau pontio defnyddiol, sy'n helpu disgyblion i gael dyheadau uchel am eu cyrchfannau yn y dyfodol. Yn Nhŷ Gilfach, mae'r gwaith hwn ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 wedi'i danddatblygu'n sylweddol. O ganlyniad, mae gormod o ddisgyblion yn y ddarpariaeth hon mewn perygl o fod yn NACH.

## Addysgu, dysgu a chynnydd disgyblion

Caiff addysgu ar draws tair darpariaeth Y Cwmpawd Gilfach ei nodweddu gan amgylcheddau tawel a phwrpasol y mae perthnasoedd cryf rhwng staff a disgyblion yn sail iddynt. Mae bron pob un o'r staff yn modelu cyfathrebu parchus ac yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer ymddygiad, sy'n cyfrannu at ddiwylliant o barch a gofal ar y ddwy ochr.

Ar draws yr UCD, nid oes unrhyw arweinyddiaeth neu fonitro trosfwaol o ran y cwricwlwm. Mae hyn yn golygu nad yw pob disgybl yn cael cynnig addysg eang, gytbwys a theg. Mae ansawdd y cwricwlwm yn amrywio'n sylweddol ar draws y tair darpariaeth. Er bod Innovate a The Hive wedi sefydlu cwricwlwm effeithiol, yn Nhŷ Gilfach, mae wedi'i danddatblygu'n sylweddol. Yn Nhŷ Gilfach, nid yw'r addysgu'n adeiladu'n raddol tuag at ddeilliannau sydd wedi'u diffinio'n glir. Mae staff yn y ddarpariaeth hon yn gweithio ag ymroddiad a brwdfrydedd, ond gyda chyfeiriad strategol neu gymorth arweinyddiaeth cyfyngedig, sy'n arwain at gynllunio tameidiog a chyflwyno anghyson. Mae absenoldeb asesiadau gwaelodlin a systemau olrhain yn rhwystro gallu staff yn sylweddol i gynllunio dysgu sy'n datblygu medrau disgyblion yn raddol dros gyfnod.

Mae darpariaeth Innovate yn cynnig cwricwlwm hynod strwythuredig, difyr ac unigoledig. Mae'n cysylltu Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol â fframwaith y Gwasanaeth Ieuenctid. Mae'r cwricwlwm yn cynnwys ystod o gymwysterau datblygiad academaidd, galwedigaethol a phersonol ochr yn ochr â phrofiadau dysgu cyfoethog sydd wedi'u teilwra i anghenion disgyblion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol a gwaith amgylcheddol pwrpasol, fel datblygu'r ardd gymunedol. Mae hyn yn helpu meithrin ymdeimlad cryf o berthyn. Caiff y Gymraeg ei hymgorffori'n dda trwy arferion dyddiol a chynnwys cwricwlwm, sy'n hyrwyddo hyder a dealltwriaeth o'r Gymraeg, ei threftadaeth a'i diwylliant. Er enghraifft, mae disgyblion yn cynhyrchu fideo difyr a difyr am Gymru fel ymgais ar gyfer cystadleuaeth fisol y Gwasanaeth Ieuenctid.

Yn narpariaeth The Hive, mae athrawon yn addasu deilliannau dysgu clir sy'n gysylltiedig ag oedran yn fedrus i greu cwricwlwm gwerthfawr sy'n addas ar gyfer eu horiau cyswllt

cyfyngedig. Mae hwn yn canolbwyntio’n dda ar anghenion a diddordebau unigol disgyblion.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio profiadau dysgu perthnasol a difyr sy’n adeiladu ar ddiddordebau ac anghenion disgyblion yn dda. Mewn llawer o achosion, mae gwersi wedi eu strwythuro’n dda gyda disgwyliadau clir ac mae staff yn defnyddio holi yn effeithiol i ddyfnhau dealltwriaeth ac annog cyfranogiad. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, mae dulliau creadigol fel diwrnodau thema yn Nhŷ Gilfach a phrosiectau datrys problemau bywyd go iawn yn Innovate yn cymell disgyblion ac yn dod â dysgu’n fyw. Yn Innovate a The Hive, cefnogir yr addysgu gan gynlluniau cwricwlwm tymor canolig buddiol, sy’n darparu fframwaith cadarn ar gyfer dysgu. Mae staff yn y darpariaethau hyn yn addasu’r cynllunio yn fedrus i ymateb i gynnydd disgyblion, eu diddordebau a digwyddiadau amserol, gan helpu sicrhau bod dysgu’n parhau’n berthnasol ac yn ystyrlon.

Nid yw’r cynllunio ar gyfer meysydd cwricwlwm pwysig fel addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) ac addysg crefydd a gwerthoedd (ACG) wedi’i ddatblygu’n ddigonol, ac nid oes dull cydlynus ar draws y darpariaethau. O ganlyniad, nid yw’r cwricwlwm yn cynorthwyo disgyblion yn ddigon da i ddatblygu’r medrau a’r hyder sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau pwysig mewn bywyd.

Mae’r tîm staff yn darparu amgylcheddau cynhwysol ar draws pob darpariaeth lle mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi. At ei gilydd, mae disgyblion sy’n mynychu’r UCD yn ymgysylltu’n frwdfrydig â’u dysgu yn rheolaidd ac yn dangos agweddau cadarnhaol. Maent yn ymateb yn dda i strwythur a threfn, ac mae ymddygiad yn gyson barchus a sefydlog. Mae llawer ohonynt yn cydweithio’n effeithiol ac yn dangos gwydnwch mewn dysgu. Pan fyddant yn cael eu hyrwyddo, mae tasgau creadigol, prosiectau cymunedol a gweithgareddau cymdeithasol yn ymestyn annibyniaeth, hyder a mwynhad disgyblion.

Lle ceir arfer yn gryf, mae llawer o staff yn defnyddio adborth llafar a hunanasesu ac asesu cymheiriaid yn gyson i helpu disgyblion i ddeall sut i wella a’u cynorthwyo i ailedrych ar eu gwaith, a’i fireinio. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae diffyg manwl gywirdeb mewn adborth ysgrifenedig ac nid yw’r cynnydd a wna disgyblion mewn gwersi yn cael ei olrhain yn ddigon cyson.

At ei gilydd, pan mae disgyblion yn mynychu’n rheolaidd, maent yn gwneud cynnydd addas yn datblygu medrau pwysig, ar y cyfan. Fodd bynnag, oherwydd nad oes cynlluniau gwaith a defnydd cyfyngedig o wybodaeth am asesiadau, nid yw staff yn adeiladu ar ddysgu blaenorol nac yn datblygu medrau disgyblion yn raddol. O ganlyniad, nid oes digon o ddisgyblion yn cyflawni’r deilliannau y gallent.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r UCD ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r UCD ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr UCD drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a'r pwyllgor rheoli yn rheoli cyllid yr UCD yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr UCD a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y pwyllgor rheoli, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr UCD
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu UCD
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor UCD a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr UCD i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r UCD
- yn ystyried cynllun gwella'r UCD ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r UCD wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r UCD, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r pwyllgor rheoli, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’* neu *‘ychydig iawn o ddisgyblion…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/08/2025